

Grŵp Gwybodaeth Tai – Papur Diweddar Hydref 2018

Mae rhestr lawn o'n cyhoeddiadau diweddaraf i'w gweld [ar ein calendr cyhoeddiadau](#)

1. Ystadegau tai

Cyhoeddiadau diweddar

- Gwerthiannau Tai Cymdeithasol, 2017-18 – datganiad blynyddol -12 Gorffennaf 2018.
- Cymorth i Brynu-Cymru, Ebrill – Mehefin 2018 – (Pennawd) -25 Gorffennaf 2018
- Digartrefedd yng Nghymru 2017-18 – datganiad blynyddol – 26 Gorffennaf 2018
- Stoc Tai Landlordiaid Cymdeithasol a Rhent 2017-18 – datganiad blynyddol – 8 Awst 2018
- Camau Meddiannu Morgeisi a Landlordiaid Ebrill – Mehefin 2018 (Pennawd) – Awst 2018
- Adeiladu Tai Newydd, Ebrill – Mehefin 2018 – (Pennawd) 13 Medi 2018.
- Digartrefedd yng Nghymru 2017-18, Ebrill – Mehefin 2018 – (Pennawd) – 27 Medi 2018
- Safon Ansawdd Tai Cymru ar 31 Mawrth 2018 – datganiad blynyddol – 4 Hydref 2018
- Darpariaeth Tai Fforddiadwy yng Nghymru, 2017-18 – datganiad blynyddol – 18 Hydref 2018

Cyhoeddiadau a gyflwynir maes o law

- Cymorth i Brynu Cymru Gorffennaf – Medi 2018 – (Pennawd) – 25 Hydref 2018
- Camau Meddiannu Morgeisi a Landlordiaid, Gorffennaf – Medi 2018 – (Pennawd) – 9 Tachwedd 2018
- Adeiladu Tai Newydd, Gorffennaf – Medi 2018 – (Pennawd) – 6 Rhagfyr 2018
- Digartrefedd, Gorffennaf – Medi 2018 – (Pennawd) – 13 Rhagfyr 2018
- Dymchweliadau Tai, 2017-18 – (Pennawd) – 18 Rhagfyr 2018
- Trwyddedau a Pheryglon Tai, 2017-18 – datganiad blynyddol – 18 Rhagfyr 2018
- Cymorth i Brynu Cymru Hydref – Rhagfyr 2018 – (Pennawd) – 24 Ionawr 2019

Digartrefedd

Cynhelir y cyfrif blynyddol Cenedlaethol o'r rhai sy'n Cysgu Allan yn gynnar ym mis Tachwedd 2018 a chyhoeddir y canlyniadau ar 5 Chwefror 2019.

Grŵp Ystadegau Tai Traws-lywodraethol (CGHSG)

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau adroddiad yn ymwneud â'u hadolygiad strategol o werth cyhoeddus ystadegau ym maes Tai a Chynllunio yn y Deyrnas Unedig. Yn

dilyn hyn, sefydlwyd grŵp ystadegau tai traws-lywodraethol i weithredu ar argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn. Cyfarfu'r grŵp ddiwethaf ar 10 Medi 2018 a [chyhoeddwyd blog ar waith y grŵp](#) ar wefan Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar 26 Medi 2018 (Saesneg yn unig).

Ym mis Awst, aeth gwefan newydd [UK GSS Housing and Planning Statistics](#) yn fyw (Saesneg yn unig). Ar y dudalen ceir Trosolwg a Chanllawiau i Ystadegau Tai a Chynllunio.

Cyhoeddwyd [cynllun gweithredu CGHSG](#) a gaiff ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd (Saesneg yn unig).

Cyhoeddir yr adroddiad pwnc cyntaf a luniwyd ar y cyd gan y grŵp ac a fydd yn cynnwys y sector rhentu preifat ym mis Rhagfyr 2018.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dynodi'r ardaloedd bach mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a chaiff ei ddiweddarau yn 2019 (fe'i gwnaed ddiwethaf yn 2014). Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad yn hwyr yn ystod hydref 2018 ar ddangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2019, yn dilyn gwaith gydag amrywiol arbenigwyr a defnyddwyr y data i lunio ein cynigion, gan gynnwys beth i'w fesur yn y parth tai. [Mae gwybodaeth bellach ar gael ar-lein.](#)

Llesiant Cymru

Ar 20 Medi 2018, cyhoeddodd [Adroddiad Llesiant Cymru 2017-18](#), sef yr ail adroddiad statudol. Yn dilyn adborth a gawsom o'n [harolwg defnyddwyr](#), rydym wedi cadw'r ffurf yn debyg i'r hyn ydoedd yn ystod y flwyddyn gyntaf. Fodd bynnag, rydym wedi dewis canolbwyntio ar un maes, a'r thema yw llesiant plant eleni, ac rydym wedi ychwanegu mwy o gynnwys am lesiant plant, gan ddefnyddio data newydd sydd ar gael.

Law yn llaw â'r prif adroddiad, rydym wedi cyhoeddi [dogfen gryno](#) a [set o sleidiau](#), gan ystyried cynnwys y prif ganfyddiadau ynghylch llesiant plant yn naratif y nodau.

Byddwn yn parhau i ddiweddarau'r tudalennau dangosyddion wrth i ddata newydd ddod ar gael.

Arolwg o Gyflwr Tai Cymru 2017-18 (WHCS)

Yn dilyn naw mis llwyddiannus o waith maes, cwblhawyd 2,552 o arolygon eiddo erbyn diwedd mis Ebrill, a oedd yn fwy na'r swm a ddymunwyd, sef 2,500. Ym mis Mawrth, cynhaliom arolwg ymhlith defnyddwyr er mwyn casglu safbwyntiau am faterion, blaenoriaethau a ffurf ein hallbynnau ac mae crynodeb o'r gwaith hwn bellach ar gael ar ein tudalen ar y we: [Arolwg o Gyflwr Tai Cymru 2017-18 – Dewisiadau Allbynnau](#). Mae hyn, ynghyd â thrafodaethau gyda chydweithwyr polisi, wedi cyfrannu at ein cynlluniau i'w lledaenu a chyhoeddir y Datganiad Cyntaf Ystadegol ym mis Tachwedd, gyda chymaint o ddadansoddiadau pennawd ag y bo modd yn yr amser sydd ar gael. Yna, bydd adroddiadau manwl faterion penodol yn dilyn o Ch1 2019. Bydd amcangyfrifon wedi'u diweddarau ynghylch tloidi tanwydd ar gael yn gynnar yn 2019 hefyd.

Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru (HSAR)

Mae fersiwn prawf cychwynnol o gysyniad HSAR wedi cael ei gynnwys yn yr ystadegau arddangos cyntaf a dynnwyd yn ddiweddar. Mae'r fersiwn prawf mewnol hwn yn cynnwys Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC), data Rhentu Doeth Cymru, Cofrestfira Tir a Swyddogion Rhent, yn ogystal â data gan awdurdod lleol Powys a Trivallis, un o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mwyaf Cymru. Dros y misoedd nesaf,

canolbwyntir ar barhau y gweithgarwch glanhau data a chysylltu gwaith, datblygu datrysiad lletya hirdymor ar gyfer HSAR a chwblhau asesiad o'r effaith ar breifatrwydd GDPR, a fydd yn helpu i gyfrannu at sut y gellir rhannu data yn allanol. Cyhoeddir adroddiad cynnydd HSAR ym mis Medi.

Amcangyfrifon o'r Angen a'r Galw am Dai

Mae amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r angen sy'n codi o'r newydd a'r angen sy'n bodoli eisoes, nas bodlonir. Paratowyd yr amcangyfrifon diweddaraf o'r angen am dai yng Nghymru yn y dyfodol gan y diweddar Alan Holmans ac fe'u cyhoeddwyd gan Y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (PPIW) ym mis Hydref 2015. Mae ffigurau Holmans yn seiliedig ar amcanestyniadau aelwydydd sydd wedi dyddio erbyn hyn, ac nad ydynt yn adlewyrchu'r tueddiadau diweddaraf o ran poblogaeth ac aelwydydd.

Ceir angen o fewn Llywodraeth Cymru, ac yn ehangach, am amcangyfrifon wedi'u diweddarau o'r angen am dai yn y dyfodol (gan gynnwys ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac er mwyn gwneud penderfyniadau am bolisi tai). Mae dulliau amrywiol er mwyn pennu'r angen am dai yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, gan gynnwys offeryn Asesu yr Angen am Dai a'r Galw am Dai sydd gan Yr Alban. Yn ddiweddar, sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid technegol allanol er mwyn cael mewnbwn i'r trafodaethau hyn – mae'r grŵp yn cynnwys arbenigwyr o awdurdodau lleol a CLILC.

2. Ymchwil tai

Cyhoeddwyd yr adroddiadau canlynol dros y chwe mis diwethaf

- [**Gwerthusiad 0 Rhentu Doeth Cymru: gweithrediad a chyflenwad**](#)

Roedd y gwerthusiad hwn yn sicrhau safbwyntiau'r awdurdod trwyddedu, awdurdodau lleol, landlordiaid preifat, asiantau gosod a thenantiaid ynghylch gweithrediad y ddeddfwriaeth newydd. Mae'r adroddiad terfynol yn cynnig dirnadaeth ynghylch gweithrediad a chyflenwad Rhentu Doeth Cymru hyd yn hyn.

- [**Gwerthuso gwasanaethau digartrefedd i oedolion yn yr ystad ddiogeledd**](#)

Mae'r gwerthusiad yn asesu sut y mae awdurdodau lleol, carchardai a darparwyr prawf yn y carchar ac yn y gymuned wedi gweithredu newidiadau i ddyletswyddau cyfreithiol tuag at y rhai sy'n gadael dalfa. Yn ogystal, mae'n cynnal asesiad cychwynnol o effaith y newidiadau hyn ar gyn-droseddwr ac mae'n nodi arfer da a meysydd i'w gwella.

- [**Astudiaeth cysylltu data Cefnogi Pobl: adroddiad cynnydd blwyddyn dau**](#)

Nod yr astudiaeth pedair blynedd hon yw defnyddio data gweinyddol er mwyn archwilio effaith rhaglen Cefnogi Pobl ar ddefnydd gwasanaethau cyhoeddus y rhai sy'n manteisio ar gymorth. Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariadau ynghylch casglu data a chynnydd tuag at y dadansoddiad sylweddol.

- [**Gwerthusiad o Ddeddfwriaeth Digartrefedd \(Rhan 2 Deddf Tai \(Cymru\) 2014\)**](#)

Nod y gwerthusiad hwn yw deall sut y gweithredwyd y ddeddfwriaeth a beth fu profiad y rhai a fu'n ceisio help dan y gyfraith newydd.

Mae'r prosiectau ymchwil canlynol yn mynd rhagddynt hefyd:

- Mae adolygiad yn mynd rhagddo o'r polisi rhenti ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r adolygiad hwn yn archwilio a yw'r polisi rhenti presennol yn addas i'r diben ac yn cyflawni ei amcanion gwreiddiol.
- Mae'r gwerthusiad o Rhentu Doeth Cymru yn archwilio sut y mae'r cynllun wedi'i roi ar waith a'r effaith y mae wedi'i gael hyd yn hyn ar landlordiaid, asiantaethau gosod tai a thenantiaid. Gwnaeth ystod o grwpiau a rhanddeiliaid allweddol gymryd rhan yn yr ymchwil, gan gynnwys landlordiaid, asiantaethau gosod tai a thenantiaid.
- Mae Prosiect Cysylltu Data Cefnogi Pobl yn defnyddio data gweinyddol i archwilio effaith y rhaglen Cefnogi Pobl ar y defnydd o wasanaethau cyhoeddus. Disgwylir i'r adroddiad cynnydd nesaf gael ei gyhoeddi yn haf 2018.
- Mae gwerthusiad o wasanaethau digartrefedd sydd ar gael i bobl ifanc yn gadael sefydliadau diogel hefyd wedi cychwyn. Bydd yn ceisio i ddeall yr effaith cynnar o ddeddfwriaeth ar bobl ifanc sy'n ddigartref neu mewn perygl o ddigartrefedd wrth nesáu tuag y datganiad.
- Disgwylir i werthusiad gael ei gyhoeddi yn haf 2018 o'r newidiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Nod y gwerthusiad hwn yw deall sut y mae'r ddeddfwriaeth wedi cael ei gweithredu a sut brofiad y mae'r rheini sydd wedi gofyn am help o dan y ddeddfwriaeth newydd wedi'i gael.
- Mae adolygiad hefyd yn mynd rhagddo o'r polisi rhenti ar gyfer tai fforddiadwy yng Nghymru. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried yr astudiaethau rhent cyfredol gyda landlordiaid; cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid; grwpiau ffocws gyda thenantiaid; a phroses modelu i edrych ar fforddiadwyedd ac opsiynau ar gyfer y matrices rhenti. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2018.

[Mae'r holl adroddiadau ar ymchwil tai i'w gweld ar-lein.](#)

3. Cynllunio

Rhifyn newydd o Bolisi Cynllunio Cymru

Mae'r rhifyn diwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru (PPW), a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 12 Chwefror ac 18 Mai 2018, yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd a disgwylir y caiff ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Cynhaliwyd ymgynghoriad am y 'Materion, y Dewisiadau a'r Dewis a Ffefrir' ar gyfer graddfa, rôl ac uchelgais y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) cyntaf rhwng 30 Ebrill a 23 Gorffennaf 2018. Dadansoddwyd yr ymatebion ac mae'r gwaith yn cychwyn nawr i baratoi drafft llawn FfDC at ddibenion ymgynghori. Bydd y ffigurau diwygiedig am yr angen a'r galw am dai (gweler eitem 6 ar yr Agenda) yn rhan bwysig o'r dystiolaeth ar gyfer cynnwys FfDC ynghylch tai.

Mae'r prif gamau cyn paratoi y FfDC fel a ganlyn:

- Ymgynghoriad am ddrafft llawn FfDC – nodi polisïau a phrosiectau cenedlaethol a chynnig cyfeiriad ar gyfer gweithgarwch cynllunio rhanbarthol – Gorffennaf 2019
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu FfDC – Ebrill 2020
- Cyhoeddi'r FfDC – Medi 2020.

[Mae gwytodaeth bellach am FfDC, gan gynnwys animeiddiad byr a dolen er mwyn cofrestru ar gyfer cylchlythyr FfDC ar gael ar-lein.](#)

'Galwad am dystiolaeth' ynghylch darparu tai trwy'r system gynllunio

Ar 18 Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig Ddatganiad Ysgrifenedig a oedd yn cyhoeddi 'galwad am dystiolaeth' fel cam cychwynol yr adolygiad ehangach o ddarpariaeth tai trwy'r system gynllunio a gyhoeddwyd ganddi ar 10 Mai. Lanswyd yr adolygiad er mwyn ymateb i'r sefyllfa bresennol o ran cyflenwad tir ar gyfer tai ac roedd yn ymwneud yn uniongyrchol â than-ddarpariaeth gofynion tai Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI). Seiliwyd yr 'alwad am dystiolaeth' a'r adolygiad ehangach ar yr egwyddorion cyffredinol canlynol:

- Rhaid i benderfyniadau cynllunio fod yn seiliedig ar gynllun datblygu diweddaraf – y dull a arweinir gan gynllun tuag at reoli datblygiad
- Dylai gofynion tai fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dylai pob safle a nodir er mwyn bodloni'r gofyniad ddangos y gellir eu cyflawni
- Rhaid i drefniadau monitro ac unrhyw gamau cysylltiedig ategu'r dull a arweinir gan gynllun tuag at reoli datblygiad.

Daeth yr 'alwad am dystiolaeth' i ben ar 10 Hydref a bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi nawr a'u hystyried o ran y ffordd y symudir ymlaen gyda'r adolygiad ehangach.

[Mae'r Datganiad Ysgrifenedig \(a oedd yn cyhoeddi dadweithredu paragraff 6.2 Nodyn Cyngor Technegol 1, Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai, am gyfnod yr adolygiad\) ar gael.](#)

4. Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru

Ystadegau Tai

Ar agor

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau ar agor am ystadegau Tai ar hyn o bryd

Tai ac Adfywio

Ar agor

Safonau gwasanaeth addasiadau tai

Ymgynghoriad am safonau gwasanaeth er mwyn darparu addasiadau tai. Cynlluniwyd y safonau hyn er mwyn gwella cysondeb y ddarpariaeth. Byddant yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaeth a therapyddion

galwedigaethol. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 19 Rhagfyr 2018 ac [mae'r holl ddogfennau perthnasol](#) ar gael ar-lein.

Gweithredu newidiadau i gyfradd y comisiwn ar gartrefi mewn parciau

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau am y ffordd y gallwn weithredu'r penderfyniad i ostwng cyfraddau'r comisiwn ar gartrefi mewn parciau. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 14 Rhagfyr 2018 ac [mae'r holl ddogfennau perthnasol ar gael ar-lein](#).

Wedi cau yn ddiweddar

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 – Rheoliadau sy'n ymwneud â Darpariaethau Atodol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau am ddwy set o Reoliadau drafft sy'n cael eu gwneud dan adran 23 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 14 Hydref 2018 ac [mae'r holl ddogfennau perthnasol ar gael ar-lein](#).

Cynllunio

Ar agor

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau ar agor am Gynllunio ar hyn o bryd.

Judith David

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Hydref 2018